O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2015 Rhif 2016 (Cy. 305)

# PRIFFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (Yr A483) a Chefnffordd y Drenewydd i Aberystwyth (Yr A489) (Ffordd Osgoi'r Drenewydd a Thynnu Statws Cefnffordd) 2015

*Gwnaed* *8 Rhagfyr 2015*

*Yn dod i rym* *18 Rhagfyr 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 10 a 12 o Ddeddf Priffyrdd 1980(**1**), a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn:-

### Enwi, Dehongli a Chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (Yr A483) a Chefnffordd y Drenewydd i Aberystwyth (Yr A489) (Ffordd Osgoi'r Drenewydd a Thynnu Statws Cefnffordd) 2015 a daw i rym ar 18 Rhagfyr 2015.

**2.** Daw'r priffyrdd newydd y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu hadeiladu ar hyd y llwybrau a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn dod yn gefnffyrdd o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn i rym.

**3.** Nodir llinellau canol y cefnffyrdd newydd â llinellau du trwm ar y plan a adneuwyd.

**4.** Bydd y darnau o'r cefnffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â llinellau streip llydan ar y plan a adneuwyd yn peidio â bod yn gefnffyrdd ac yn dod yn ffyrdd dosbarthiadol o'r dyddiad y bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu

(**1**) 1980 p.66.

(**2**) Yn rhinwedd O.S.1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Cyngor Sir Powys fod y cefnffyrdd newydd ar agor ar gyfer traffig trwodd.

**5.** Yn y Gorchymyn hwn—

Gwneir pob mesuriad pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

(i) ystyr “y plan a adneuwyd” (“*the deposited plan*”) yw’r plan sy’n dwyn y rhif HA10/2 WG9 ac sydd wedi’i farcio “Gorchymyn Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (Yr A483) a Chefnffordd y Drenewydd i Aberystwyth (Yr A489) (Ffordd Osgoi’r Drenewydd a Thynnu Statws Cefnffordd 2015”, a lofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru ac a adneuwyd (cyf qA1180057) yn Llywodraeth Cymru, yr Uned Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion, Parc Cathays, Caerdydd;

(ii) ystyr “y cefnffyrdd newydd” (“*the new trunk roads*”) yw’r cefnffyrdd a grybwyllir yn erthygl 1 o’r Gorchymyn hwn;

(iii) ystyr “y cefnffyrdd” (“*the trunk roads*”) yw Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (Yr A483) a Chefnffordd y Drenewydd i Aberystwyth (Yr A489).

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidaieth, un o Weinidogion Cymru

8 Rhagfyr 2015

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau Llywodraeth Cymru

# ATODLEN

## ATODLEN 1

## LLWYBRAU'R CEFNFFYRDD NEWYDD

Mae llwybrau'r cefnffyrdd newydd yn y Drenewydd yn Sir Powys fel a ganlyn:

**1.** Darn o Gefnffordd Abertawe i Fanceinion (A483) sy'n cychwyn wrth bwynt ar Gefnffordd bresennol yr A483 tua 70 metr i'r gogledd-orllewin o gysylltiad llinell ganol mynedfa bresennol Black Hall â Chefnffordd yr A483 (wedi'i farcio ag A ar y plan a adneuwyd) gan ymestyn tua'r gogledd-ddwyrain yn gyffredinol am bellter o ryw 4.03 cilometr hyd at bwynt ar Gefnffordd bresennol yr A483 tua 756 metr i'r dwyrain o gysylltiad llinell ganol mynedfa bresennol Ystâd Ddiwydiannol Dyffryn â Chefnffordd yr A483 (wedi'i farcio â B ar y plan a adneuwyd).

**2.** Darn o Gefnffordd y Drenewydd i Aberystwyth (A489) sy'n cychwyn wrth bwynt ar Gefnffordd bresennol yr A489 tua 345 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd bresennol â'r ffordd fynediad ddienw sy'n arwain at yr eiddo o'r enw Glanrhyd a Glanhafren Hall (wedi'i farcio ag C ar y plant a adneuwyd) gan ymestyn tua'r dwyrain yn gyffredinol am bellter o ryw 2.50 cilometr hyd at bwynt tua 208 metr i'r gogledd-orllewin o gysylltiad llinell ganol mynedfa bresennol Black Hall â Chefnffordd yr A483 (wedi'i farcio â D ar y plan a adneuwyd).

## ATODLEN 2

## DARNAU O'R CEFNFFYRDD SY'N PEIDIO Â BOD YN GEFNFFYRDD

Mae'r darnau o gefnffyrdd sy'n peidio â bod yn gefnffyrdd yn y Drenewydd yn Sir Powys fel a ganlyn:

**1.** Darn o Gefnffordd Abertawe i Fanceinion (A483) sy'n cychwyn wrth bwynt ar Gefnffordd yr A483 tua 122 fetr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd bresennol â Ffordd Dolfor Ganol (wedi'i farcio ag E ar y plan a adneuwyd) gan ymestyn tua'r gogledd-ddwyrain yn gyffredinol am bellter o ryw 3.41 cilometr hyd at bwynt ar Gefnffordd yr A483 tua 440 metr i'r dwyrain o gysylltiad llinell ganol mynedfa bresennol Ystâd Ddiwydiannol Dyffryn â Chefnffordd yr A483 (wedi'i farcio ag F ar y plan a adneuwyd).

**2.** Darn o Gefnffordd Abertawe i Fanceinion (A483) sy'n cychwyn wrth bwynt ar gefnffordd yr A483 tua 7 metr i'r gorllewin o'i chyffordd bresennol â Ffordd Dolfor Ganol (wedi'i farcio â J ar y plan a adneuwyd) gan ymestyn tua'r gogledd-orllewin yn gyffredinol am bellter o ryw 0.06 cilometr hyd at bwynt ar Gefnffordd yr A483 tua 53 metr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd bresennol â Ffordd Dolfor Ganol (wedi'i farcio â K ar y plan a adneuwyd).

**3.** Darn o Gefnffordd y Drenewydd i Aberystwyth (A489) sy'n cychwyn wrth bwynt ar Gefnffordd yr A489 tua 102 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd bresennol â'r ffordd fynediad ddienw sy'n arwain at yr eiddo o'r enw Glanrhyd a Glanhafren Hall (wedi'i farcio ag G ar y plan a adneuwyd) gan ymestyn tua'r gogledd-ddwyrain yn gyffredinol am bellter o ryw 2.42 cilometr hyd at bwynt ar y gyffordd bresennol a ffurfir lle mae Cefnffordd yr A489 yn cysylltu â Chefnffordd yr A483 (wedi'i farcio ag H ar y plan a adneuwyd).